

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Strategaeth Llais y Plentyn
Aelod Cabinet:	Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg
Swyddog perthnasol:	Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg
Dyddiad y cyfarfod:	13 Hydref 2026

1. Y Penderfyniad a Geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

1. Gymeradwyo Strategaeth Llais y Plentyn Cyngor Gwynedd (**Atodiadau 1 - 5**)
2. Nodi y bydd Cynllun Gweithredu corfforaethol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu i gefnogi gweithrediad y Strategaeth ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

Mae'r Strategaeth yn sefydlu fframwaith corfforaethol ar gyfer sicrhau bod hawliau, barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn dylanwadu'n ystyrlon ar benderfyniadau, polisiâu a gwasanaethau ar draws Cyngor Gwynedd. Mae hefyd yn gosod disgwyliadau cyson ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac yn cryfhau atebolrwydd corfforaethol mewn perthynas â llais plant a phobl ifanc.

Mae mabwysiadu'r Strategaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu a gwreiddio trefniadau cyfranogiad plant a phobl ifanc ar draws pob maes gwasanaeth. Bydd yn sicrhau dull corfforaethol cyson o wrando ar blant a phobl ifanc, defnyddio eu safbwyntiau wrth gynllunio a gwella gwasanaethau, a dangos sut mae eu cyfraniadau yn dylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor.

Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet er mwyn mabwysiadu'r Strategaeth fel fframwaith corfforaethol swyddogol y Cyngor a sefydlu'r trefniadau llywodraethu, monitro a gweithredu sy'n angenrheidiol i'w rhoi ar waith ar draws y sefydliad. Heb Strategaeth gorfforaethol glir, mae perygl y bydd arferion cyfranogiad yn parhau yn anghyson rhwng gwasanaethau ac y bydd hi'n anodd dangos yn systematig sut mae barn plant a phobl ifanc yn llywio penderfyniadau'r Cyngor.

3. Cyflwyniad

Mae hawl plant a phobl ifanc i gael eu clywed wedi'i gwreiddio yn Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ynghyd â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar y dyletswyddau hyn ac yn darparu dull corfforaethol o sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn rhan annatod o gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau, yn ogystal â wneud penderfyniadau ar draws y Cyngor.

Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth lle mae'r Cyngor yn gweithredu'n gyson ar sail hawliau plant, gan wreiddio Llais y Plentyn ym mhob agwedd o arweinyddiaeth, diwylliant, prosesau a systemau'r sefydliad.

Mae'r Strategaeth yn cael ei llywio gan saith addewid i blant a phobl ifanc, gan gynnwys ymrwymiad i sicrhau bod eu llais yn dylanwadu ar benderfyniadau, bod adborth yn cael ei ddarparu a bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gael ei glywed.

Mae'r Strategaeth hefyd yn sefydlu trefniadau llywodraethu clir drwy dri phrif lwybr cyfranogiad: Addysg, y Gwasanaeth Ieuencid a gwasanaethau corfforaethol eraill. Daw'r ffrydiau hyn ynghyd drwy Fforwm Ieuencid Gwynedd, sy'n darparu mecanwaith ffurfiol ar gyfer cyflwyno safbwyntiau plant a phobl ifanc i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol. Mae hyn yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei ystyried yn gyson o fewn trefniadau cynllunio, gwerthuso a gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

O fewn ysgolion, bydd cyrff llywodraethu yn parhau i gyflawni eu swyddogaethau statudol a'u rôl strategol annibynnol. Fel rhan o'u rôl fel cyfaill beirniadol, disgwylir iddynt geisio sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i wrando ar ddisgyblion ac i ystyried sut mae eu safbwyntiau'n llywio polisïau, cynlluniau a blaenoriaethau'r ysgol. Nid yw'r Strategaeth yn gosod dyletswyddau gweithredol newydd ar lywodraethwyr nac yn newid trefniadau llywodraethu presennol ysgolion.

Bydd gweithrediad y Strategaeth yn cryfhau gwaith y Cyngor drwy:

- Sicrhau cysondeb corfforaethol ar draws pob gwasanaeth.
- Cryfhau'r cysylltiad rhwng cyfranogiad a gwneud penderfyniadau strategol.
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth yn cael eu clywed.
- Cryfhau atebolrwydd a'r gallu i ddangos effaith.
- Datblygu diwylliant sefydliadol lle mae gwrandao ar blant yn rhan arferol o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Er bod nifer o fecanweithiau eisoes ar waith ar draws y Cyngor i gasglu barn plant a phobl ifanc, mae tystiolaeth o amrywiad rhwng gwasanaethau a risgiau o safbwynt

cysondeb ac atebolrwydd. Mae'r Strategaeth yn ymateb i'r heriau hyn drwy ddarparu disgwyliadau corfforaethol cyffredin ac egwyddorion gweithredu clir.

Mae'r Strategaeth yn pwysleisio nad tasg i un gwasanaeth yn unig yw Llais y Plentyn ond cyfrifoldeb corfforaethol sy'n berthnasol i holl swyddogaethau'r Cyngor.

Datblygwyd y Strategaeth gyda mewnbwn gan blant a phobl ifanc, a bydd fersiwn hygyrch o'r ddogfen ar gael iddynt.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Mae'r Strategaeth yn darparu'r fframwaith strategol sydd ei angen i sicrhau bod llais y plant a phobl ifanc yn cael ei ystyried yn gyson wrth ddatblygu polisiau, cynlluniau a phenderfyniadau strategol.

Bydd mabwysiadu'r Strategaeth yn:

- Cefnogi dyletswyddau statudol y Cyngor mewn perthynas â hawliau plant.
- Cryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd corfforaethol.
- Egluro rôl strategol cyrff llywodraethu ysgolion wrth geisio sicrwydd bod llais y disgybl yn cael ei ystyried, heb newid eu swyddogaethau statudol na'u cyfrifoldebau presennol.
- Sicrhau bod profiadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cyfrannu at gynllunio a gwella gwasanaethau.
- Darparu sail glir ar gyfer monitro, gwerthuso ac adrodd ar effaith cyfranogiad plant a phobl ifanc. Bydd y cynllun gweithredu'n cynnwys dangosyddion perfformiad a threfniadau adrodd rheolaidd i fesur effaith y Strategaeth.

5. Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Mae'r Strategaeth wedi'i datblygu drwy broses o gynnwys plant a phobl ifanc wrth lunio'r fframwaith, y blaenoriaethau a'r disgwyliadau sydd yn sail i'r ddogfen derfynol. Defnyddiwyd egwyddorion Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail i'r gwaith, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i fynegi eu barn, herio syniadau ac effeithio ar gynnwys y Strategaeth. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r egwyddor a nodir yn y Strategaeth fod plant yn ddeiliaid hawliau a bod eu profiadau byw yn ffynhonnell bwysig o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau.

Yn ystod y cyfnod datblygu, rhoddwyd cyfleoedd i blant a phobl ifanc herio'r cynnwys drafft, nodi meysydd i'w cryfhau a dylanwadu ar gynnwys y ddogfen derfynol. O ganlyniad, mae'r Strategaeth yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a fynegwyd gan bobl ifanc eu hunain, gan gynnwys yr angen am ddylanwad gwirioneddol ar

benderfyniadau, adborth clir ar ganlyniadau eu cyfraniad, a sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gael ei glywed.

Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu pwrpasol gyda phlant a phobl ifanc i drafod y Strategaeth ddrafft a chanfod a oedd yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddynt. Yn hytrach na gofyn am gymeradwyaeth i ddogfen a oedd eisoes wedi'i chwblhau, defnyddiwyd y sesiynau i adnabod beth oedd ar goll, beth oedd angen ei gryfhau a beth fyddai'n dangos yn ymarferol bod y Strategaeth yn arwain at newid gwirioneddol. Roedd hyn yn sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei llywio gan brofiadau ac anghenion plant a phobl ifanc yn hytrach na safbwyntiau oedolion yn unig. Gweler **Atodiad 6** am grynodedd llawn o'r sesiynau ymgysylltu â'r bobl ifanc.

Mae dylanwad plant a phobl ifanc eisoes yn weladwy yn y Strategaeth derfynol. Mae'r saith addewid craidd wedi'u llunio yn uniongyrchol o'u geiriau a'u blaenoriaethau, gan gynnwys yr angen i sicrhau:

- bod eu llais yn dylanwadu ar benderfyniadau ac nid yn cael ei gasglu yn unig;
- bod pob plentyn yn cael cyfle i gymryd rhan, nid y rhai mwyaf hyderus yn unig;
- bod adborth clir yn cael ei ddarparu ar yr hyn sydd wedi newid;
- a bod eu safbwyntiau yn cyrraedd y bobl sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae'r adborth a dderbyniwyd hefyd wedi dylanwadu ar nifer o elfennau craidd y Strategaeth, gan gynnwys y pwyslais ar gyfranogiad ystyrlon, cynhwysiant, tryloywder, atebolrwydd a'r angen i ddangos effaith. O ganlyniad, mae'r Strategaeth yn gosod disgwyliad clir mai llwyddiant fydd gallu dangos sut mae barn plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar benderfyniadau, polisiau a gwasanaethau, yn hytrach na mesur llwyddiant ar sail nifer y gweithgareddau ymgysylltu a gynhelir yn unig.

Nid yw cyfraniad plant a phobl ifanc yn dod i ben gyda mabwysiadu'r Strategaeth. Mae'r ddogfen yn ymrwymo'r Cyngor i gynnal dull parhaus o gyfranogiad drwy strwythurau sefydledig megis Fforwm Ieuenctid Gwynedd a'r Cabinet Pobl Ifanc, gan sicrhau y bydd plant a phobl ifanc yn parhau i gyfrannu at osod blaenoriaethau, monitro cynnydd a llywio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, mae'r broses ddatblygu wedi adlewyrchu'r egwyddor ganolog sydd wrth wraidd y Strategaeth sef nad yw Llais y Plentyn yn ymwneud â chasglu barn yn unig, ond â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael dylanwad gwirioneddol ar y penderfyniadau, y polisiau a'r gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

6. Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae Asesiad Effaith Cyfansawdd wedi'i gwblhau ar gyfer Strategaeth Llais y Plentyn. Daeth yr Asesiad i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol wedi'u nodi mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Disgwylir i'r Strategaeth gael effaith gadarnhaol drwy gryfhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael eu clywed a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan roi sylw penodol i'r angen i sicrhau cyfranogiad cynhwysol a chynrychioliadol, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth.

Mae'r Asesiad hefyd yn dod i'r casgliad bod y Strategaeth yn cefnogi hawliau plant, yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn cyfrannu at leihau rhwystrau i gyfranogiad ac yn cydfynd â dyletswyddau'r Cyngor mewn perthynas â hawliau dynol, y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Gellir gweld yr Asesiad Effaith Cyfansawdd llawn yn **Atodiad 7**.

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Strategaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at nifer o nodau llesiant y Ddeddf, yn arbennig Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, a Chymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'n cryfhau hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc, yn hyrwyddo cynhwysiant ac yn cefnogi trefniadau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r Strategaeth hefyd yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio drwy fabwysiadu dull hirdymor o wreiddio llais y plentyn yng ngwaith y Cyngor, hyrwyddo atal drwy ddeall profiadau plant a phobl ifanc yn gynharach, integreiddio cyfranogiad ar draws gwasanaethau, cydweithio â phlant a phobl ifanc a rhanddeiliaid perthnasol, a sicrhau bod cynnwys wrth wraidd y trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau.

8. Sylwadau Swyddogion Statudol

8.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir ac yn fodlon nad oes ymrwymiad ariannol ychwanegol yn deillio ohono.

8.2 Swyddog Monitro

Mae paragraffu agoriadol y Strategaeth yn tanlinellu natur traws Gyngor y fframwaith cyfreithiol sydd yn sylfaen i'r ddogfen bwysig yma. Mae lle cydnabyddedig i lais plant a phobl ifanc ar draws holl waith y cyngor sydd yn berthnasol neu yn effeithio arnynt. Drwy baratoi strategaeth eglur gosodir fframwaith gorfforaethol ddylai weithredu i amlygu y gofynion wrth gwrs ond, hefyd y disgwyliadau ar holl wasanaethau y Cyngor i roi lle priodol i'r hawliau yma. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 – Strategaeth Llais y Plentyn

Atodiad 2 – Llais y Dysgwr mewn Addysg

Atodiad 3 – Llais y Dysgwyr mewn Gwasanaethau Plant

Atodiad 4 – Fforymau Llais Plant a Phobl Ifanc

Atodiad 5 – Integreiddio a Llywodraethu Strategol

Atodiad 6 – Canlyniadau'r Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc

Atodiad 7 – Asesiad Effaith Cyfansawdd